



AQA	City & Guilds	CCEA	OCR	Pearson	CBAC
-----	---------------	------	-----	---------	------

Apeliadau ar sail gwall gan ganolfan – canllawiau ychwanegol i benaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr a staff addysgu

Mae CCEA, Ofqual a Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau o ran apeliadau ar gyfer canlyniadau haf 2020. Argymhellwn yn gryf y darllenir y canllawiau cyn cyflwyno apêl i gorff dyfarnu:

[Crynodeb o ganllawiau Ofqual ar apeliadau a chwynion o ran camymddwyn a chamweinyddu ar gyfer graddau TGAU, UG a Safon Uwch yn Lloegr](#)

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/datganiad-cymwysterau-cymru-ynghylch-broses-apelio/>

<https://ccea.org.uk/document/6956>

Mae'r canllawiau ategol hyn yn esbonio disgwyliadau'r cyrff dyfarnu o ran yr apeliadau a gyflwynir ar sail gwall gan ganolfan, yn benodol y math o dystiolaeth y byddai ei angen i gefnogi'r fath apeliadau.

Cyflwyno apêl ar sail gwall gan ganolfan

O ystyried y gofal a gymerwyd gan athrawon ac uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau wrth bennu Graddau Asesu Canolfannau, rydym yn disgwyl y bydd apeliadau ar sail gwall gan ganolfan yn brin ac yn eithriadol.

Dilynodd ysgolion a cholegau broses drwyadl cyn cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a oedd yn cynnwys:

- dau athro yn ystyried pob gradd, a dylai fod un o'r rheini yn bennaeth adran neu'n arweinydd pwnc;
- pennaeth y ganolfan, y Prifathro/Prifathrawes fel arfer, yn cyflwyno datganiad gyda'r Graddau Asesu Canolfannau. Roedd y datganiad hwn yn cadarnhau bod prosesau sicrhau ansawdd wedi'u dilyn yn briodol cyn cyflwyno a bod y graddau yn cynrychioli'n onest ac yn deg yr hyn y byddai'r ymgeisydd yn fwyaf tebygol o fod wedi'i gyflawni pe bai'r arholiadau wedi'u cynnal.

Os oes gan ysgol neu goleg dystiolaeth ei fod wedi gwneud camgymeriad wrth gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau, gellir cyflwyno apêl i gyrff dyfarnu. Dyma rai enghreifftiau:

- gwall clerigol eithriadol; neu
- fethiant i ystyried gwybodaeth bwysig am berfformiad tebygol ymgeisydd y dylid bod wedi'i hystyried ac a chafodd ei hystyried ar gyfer ymgeiswyr eraill.

Rhaid cefnogi pob apêl a gyflwynir â thystiolaeth berthnasol a manwl sy'n esbonio'n glir gwall y ganolfan a pham mae'r gradd newydd arfaethedig yn fwy cywir na'r Radd Asesu Canolfan a gyflwynwyd yn wreiddiol. **Ni fydd** apêl a gyflwynir heb ddigon o dystiolaeth yn cael ei derbyn. Nid yw'n dderbyniol rhoi data heb esboniad clir a sail resymegol. Bydd y math o dystiolaeth a gyflwynir yn dibynnu ar yr achos ond gallai gynnwys:

- datganiadau/esboniadau o wallau wedi'u llofnodi gan bennaeth y ganolfan, athro pwnc a/neu bennaeth adran, yn cynnwys pam na nodwyd y gwall yn ystod y broses wreiddiol;
- nodiadau cyfarfod cyfoes sy'n cefnogi'r esboniad o'r gwall (er enghraifft, o gyfarfod lle cytunwyd ar broses osod Graddau Asesu Canolfannau benodol yn y ganolfan);
- data olrhain neu ddata cynnydd eraill;
- dogfennau ysgrifenedig sy'n rhoi tystiolaeth o pryd daeth problem i'r amlwg neu sydd fel arall yn cefnogi'r esboniad o'r gwall;
- tystiolaeth o pam nad oedd dull gwreiddiol yr ysgol neu goleg yn briodol, o ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd.

Nid yw'r canlynol yn sail ar gyfer apêl ac ni fyddant yn cael eu derbyn:

- mae ymgeisydd yn anghytuno â barn broffesiynol ei ganolfan;
- mae'r ganolfan wedi newid ei barn broffesiynol;
- mae athro gwahanol nawr wedi dod i gasgliad gwahanol;
- defnyddiodd canolfan arall ddull gwahanol;
- ni wnaeth y broses safoni genedlaethol weithredu fel y disgwyl;
- ystyriodd y ganolfan ddosraniad y Graddau Asesu Canolfannau o'i gymharu â'r graddau a gyflawnwyd gan ymgeiswyr y ganolfan mewn blynyddoedd blaenorol.